Neath Port Talbot
Castell-nedd Port Talbot
County Borough Council Cyngor Bwrdeistref Sirol

AGENDA

# *PWYLLGOR CRAFFU'R CABINET*

***2.00 PM DYDD MERCHER, 19 HYDREF 2022***

***CYFARFOD AML-LEOLIAD SIAMBR Y CYNGOR, TIMAU PORT TALBOT A MICROSOFT***

**Rhaid gosod pob ffôn symudol ar y modd distaw ar gyfer parhad y cyfarfod**

**Rhan 1**

1. Cyhoeddiad y Cadeirydd

2. Datganiadau o fuddiannau

3. Cofnodion y cyfarfod blaenorol *(Tudalennau 5 - 12)*

4. Craffu Cyn Penderfynu
   Dewis eitemau priodol o Agenda Bwrdd y Cabinet ar gyfer craffu cyn penderfynu (amgaeir adroddiadau Bwrdd y Cabinet aa gyfer yr Aelodau Craffu)

5. Rhaglen Gwaith Cychwynnol 2022/23

6. Eitemau brys
   *(Unrhyw eitemau brys (boed yn gyhoeddus neu wedi'u heithrio) yn ol disgresiwn y Cadeirydd yn unol ag Adran 100B (4) (b) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972)*

7. Mynediad i gyfarfodydd
   *Mynediad i gyfarfodydd i benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r eitem ganlynol yn unol ag Is-adran 100a(4) a (5) Deddf Llywodraeth Leol 1972 a'r paragraffau eithriedig perthnasol o Ran 4 Atodlen 12a y Ddeddf uchod.*

**Rhan 2**

8. Craffu Eitem/Eitemau Preifat Cyn Penderfynu
Dewis eitemau priodol o Agenda Bwrdd y Cabinet ar gyfer craffu cyn penderfynu (amgaeir adroddiadau Bwrdd y Cabinet ar gyfer yr Aelodau Craffu)

**K.Jones**
**Prif Weithredwr**

**Canolfan Ddinesig**
**Port Talbot** **Dydd Iau, 13 Hydref 2022**

**Aelodaeth y Pwyllgor:**

**Cadeirydd:** **Y Cynghorydd P.Rogers**

**Is-gadeirydd:** **C.James**

**Cynghorwyr:** T.Bowen, C.Clement-Williams, C.Galsworthy, J.Henton, R.G.Jones, C.Lewis, S.Paddison, C.Phillips, R.Phillips, S.Pursey, S.H.Reynolds, A.J.Richards a/ac M.Spooner

**Nodiadau:**

*(1) Os yw aelodau'r pwyllgor neu'r rhai nad ydynt yn aelodau'r pwyllgor am gynnig eitemau perthnasol i'w cynnwys ar yr agenda cyn cyfarfodydd y dyfodol, rhaid iddynt roi gwybod i'r Prif Weithredwr/Cadeirydd 8 niwrnod cyn y cyfarfod.*

*(2) Os yw'r rhai nad ydynt yn aelodau'r pwyllgor am fod yn bresennol ar gyfer eitem o ddiddordeb, mae'n rhaid rhoi rhybudd ymlaen llaw (erbyn 12 hanner dydd ar y diwrnod cyn y cyfarfod). Gall y rhai nad ydynt yn aelodau'r pwyllgor siarad ond nid oes ganddynt hawl i bleidleisio, cynnig nac eilio unrhyw gynnig.*

(3) *Fel arfer, ar gyfer trefniadau cyn craffu, bydd y Cadeirydd yn argymell eitemau gweithredol sydd ar ddod i'w trafod/herio. Mae hefyd yn agored i aelodau'r pwyllgor ofyn i eitemau gael eu trafod - er y gofynnir i'r aelodau ddewis a dethol yma o ran materion pwysig.*

(4) *Gwahoddir aelodau perthnasol Bwrdd y Cabinet hefyd i fod yn bresennol yn y cyfarfod at ddibenion Craffu/Ymgynghori.*

(5) *Gofynnir i aelodau'r Pwyllgor Craffu ddod â'u papurau ar gyfer Bwrdd y Cabinet i'r cyfarfod.*

Mae’r dudalen hon yn fwriadol wag

# PWYLLGOR CRAFFU'R CABINET

## (Multi-Location Meeting - Council Chamber, Port Talbot and Microsoft Teams)

**Aelodau sy'n Bresennol:** **Dydd Iau, 28 Gorffennaf 2022**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd P.Rogers** |
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd** |
| **Cynghorwyr**: | C.Clement-Williams, J.Henton, R.G.Jones, C.Lewis, S.Paddison, C.Phillips, R.Phillips, S.H.Reynolds, A.J.Richards a/ac M.Spooner |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | K.Jones, A.Thomas, N.Pearce, C.Griffiths, H.Jones a/ac J.Woodman-Ralph |
| **Gwahoddedigion y Cabinet:** | Cynghorwyr |
| **Arsylwyr:** | |

---

1. **CYHOEDDIAD Y CADEIRYDD**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

2. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Derbyniwyd y datganiadau o fuddiannau canlynol:

Y Cyng. M Spooner - Eitem 10. Personol – Cadeirydd Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Rhos. Mae gan y Cyng. Spooner ollyngiad i siarad a phleidleisio ar yr eitem hon.

Y Cyng. S Reynolds Eitem 7 – Personol – Ymddiriedolwr Canolfan Maerdy
Eitem 16 – Personol – Ymddiriedolwr Canolfan

Maerdy

Y Cyng. S Jones Eitemau 7 a 10 – Personol, Rhagfarnol – Cyfarwyddwr dau o'r lleoliadau gofal plant sy'n cael ei dalu am hynny. Bydd y Cyng. Jones yn gadael yr ystafell pan fydd yr eitemau'n cael eu trafod.

## 3. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Mehefin 2022 fel cofnod gwir a chywir.

## 4. CRAFFU CYN PENDERFYNU

Ehangu Dechrau'n Deg - Cam 1

Ailddatganodd y Cyng. Scott Jones ei fudd a gadawodd yr ystafell ar gyfer yr eitem hon.

Cyflwynwyd gwybodaeth i'r aelodau yn ymwneud ag Ehangu Cam Un Dechrau'n Deg, fel y manylir yn yr adroddiad a gylchredwyd.

Dywedodd swyddogion y byddai Dechrau'n Deg yn cael ei ehangu mewn tair ardal. Dewiswyd yr ardaloedd yn seiliedig ar ddata cadarn a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru a hefyd ddata Castell-nedd Port Talbot ei hun am y rheini sy'n agored i niwed ac amddifadedd. Mae'r ehangiad yn fach iawn ac mae'n cael ei ymestyn i gynnwys 127 o blant ychwanegol. Gyda 32 o'r plant hynny'n rhan o'r rhaglen allgymorth.

Holodd yr aelodau ynghylch pa drafodaethau a pha waith a oedd wedi dechrau mewn perthynas ag ystyried yr ehangiad i'r cynllun a'i gynllunio, yn arbennig gyda Llywodraeth Cymru. Roedd yr aelodau'n cydnabod y gwaith mawr y byddai angen ei wneud er mwyn hyrwyddo'r ehangiad.

Cadarnhaodd swyddogion eu bod yn cynnal trafodaethau â Llywodraeth Cymru sydd wedi dweud bod bwriad i ryddhau rhagor o wybodaeth dros yr haf, cyn i gam 1 ddechrau. Mae'r gwaith cynllunio ar gyfer cam 2 yn mynd rhagddo yn y ffordd orau y gellir ei wneud,

hyd nes y bydd rhagor o wybodaeth yn cael ei rhyddhau gan Lywodraeth Cymru.

Gofynnodd yr aelodau i swyddogion ystyried atodi rhestr termau briodol i adroddiadau yn y dyfodol, lle defnyddir byrfoddau technegol.

Yn dilyn craffu, roedd yr aelodau'n gefnogol o'r cynnig i'w ystyried gan y Cabinet.

Dychwelodd Cyng. Jones i'r ystafell.

Defnyddio staff mewnol ar gyfer Gwasanaethau Hamdden

Cyflwynwyd gwybodaeth i'r aelodau yn ymwneud â defnyddio staff mewnol ar gyfer y gwasanaethau hamdden, fel y manylir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Roedd yr adroddiad yn darparu amserlen fanwl a'r gwahanol gamau yr oedd eu hangen ar gyfer defnyddio staff mewnol yn y gwasanaeth, a'r Bwrdd Prosiect a sefydlwyd i ymgymryd â'r dasg hon.

Cadarnhaodd swyddogion fod cyfres o gyfarfodydd eisoes wedi'u cynnal gyda chydweithwyr Penaethiaid Gwasanaethau o gyfarwyddiaethau eraill, a chydweithwyr o Hamdden Celtic er mwyn caniatáu i wybodaeth gael ei rhannu rhwng y ddau sefydliad.

Holodd yr aelodau a oedd swyddogion yn cydweithio gyda chyfarwyddiaethau eraill i archwilio ymagwedd gyfannol at sicrhau cynaliadwyedd y gwasanaeth. Er enghraifft, cysylltiadau gyda gwasanaethau iechyd meddwl a hefyd bresgripsiynu cymdeithasol â'r gwasanaeth iechyd.

Cadarnhawyd mai swyddogion CBSCNPT sy'n gyfrifol am y Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff. Mae swyddogion yn gweithio'n agos gyda'r Bwrdd Iechyd ac Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae'r cyngor wedi cymryd £100,000 yn ychwanegol y flwyddyn i allu cyflawni ar ran y Bwrdd Iechyd. Cadarnhaodd swyddogion y bydd Hamdden Celtic yn dod yn rhan o'r Gwasanaethau Hamdden newydd ar ôl iddynt gael eu trosglwyddo iddynt. Bydd swyddogion yn gweithio gyda'r Gwasanaethau Hamdden sydd newydd eu ffurfio i sicrhau bod cysylltiadau'n cael eu ffurfio er mwyn darparu gwasanaethau.

Cadarnhaodd swyddogion y byddai cynllun busnes yn cael ei roi gerbron aelodau yn yr hydref a fydd yn manylu ar y cysylltiadau a fydd yn cael eu ffurfio.

Gofynnodd yr aelodau, dan 5.11, beth byddai'n cael ei golli/beth na fyddai'n cael ei flaenoriaethu o ganlyniad i'r cynnydd yn y llwyth gwaith. Mynegodd yr aelodau eu pryderon gan gwestiynu pa gamau gweithredu a gymerwyd i sicrhau nad oes niwed i wasanaethau yn y flwyddyn bresennol.

Dywedodd swyddogion fod ymgynghorydd allanol yn gweithio gyda'r cyngor drwy gydol y broses drosglwyddo. Bydd ymgynghoriaeth yn cael ei phenodi i gynorthwyo gyda'r gwaith o baratoi'r cynllun busnes sydd i ddod. Cadarnhaodd swyddogion hefyd, gan mai newydd ddechrau y mae'r broses drosglwyddo, nad oes unrhyw feichiau penodol wedi'u nodi. Deellir bod TG ac AD yn debygol o gronni'r symiau mwyaf o waith fel rhan o'r trosglwyddiad. Bydd cyswllt rheolaidd yn cael ei gynnal â'r swyddogion priodol er mwyn sicrhau bod unrhyw gynnydd yn y llwyth gwaith yn cael ei nodi ac y gellir ystyried mesurau priodol.

Amlinellodd y swyddogion fod strategaeth gyfathrebu wedi'i sefydlu a fydd yn cael ei chyflwyno i aelodau er gwybodaeth ym mis Medi. Bydd Prif Weithredwr Hamdden Celtic yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i weithwyr yn fisol. Mae'r undebau hefyd yn ymwybodol o hyn. Bydd y cyfathrebu'n cael ei arwain gan CBSCNPT.

Nododd yr aelodau y cymorth ariannol a roddwyd i Hamdden Celtic a gofynnwyd pa gymorth parhaus a fyddai'n cael ei roi i Hamdden Celtic nes bod y trosglwyddiad wedi ei gwblhau. Amlinellodd swyddogion y Cytundeb Indemniad presennol i indemnio Hamdden Celtic yn erbyn unrhyw golledion dros y cytundeb rheoli, sy'n £1.5 miliwn. Cadarnhawyd bod Hamdden Celtic yn masnachu tua £2.5 miliwn ar hyn o bryd. Mae Hamdden Celtic wedi elwa o gronfa colli incwm COVID Llywodraeth Cymru ac mae ganddynt gytundeb rheoli gwerth £1.5 miliwn yn ei le. Amcangyfrifir y bydd angen i CBSCNPT indemnio £600,000 i Hamdden Celtic y flwyddyn ariannol hon.

Mynegodd yr aelodau eu pryder ynghylch y bwlch cyllido o £3.1 miliwn a nodwyd yn yr adroddiad.

Nododd yr aelodau y bydd tueddiadau o fewn iechyd a ffitrwydd yn newid yn aml a'i bod yn bwysig cael yr wybodaeth ddiweddaraf am y duedd i sicrhau bod cyfleusterau'n parhau i fod yn ddeniadol i'w

cleientiaid. Cadarnhaodd swyddogion y bydd y cynllun busnes yn cynnwys syniadau sy'n nodi'r cyfleoedd buddsoddi mwyaf masnachol a fydd yn hybu'r incwm a gynhyrchir gymaint â phosib.

Holodd Aelodau a fyddai cyfleoedd i golli swyddi'n wirfoddol. Cadarnhaodd swyddogion pe bai achosion o golli swydd, yn gyfreithiol byddai angen cynnig colli swyddi'n wirfoddol yn gyntaf.

Yn dilyn trafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd y diwygiad canlynol i argymhelliad 2 a gynhwyswyd yn yr adroddiad a gylchredwyd: "Bod y Cyfarwyddwr Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd a'r *Aelod Cabinet perthnasol* yn cael awdurdod dirprwyedig i wneud penderfyniadau cychwynnol sy'n ofynnol er mwyn cyflwyno achos busnes llawn i'r Cabinet/Bwrdd y Cabinet ym mis Hydref/Tachwedd 2022 i gyflawni'r gwaith o ddefnyddio staff mewnol mewn gwasanaethau hamdden erbyn 1 Ebrill 2023 (ar yr amod na fydd dirprwyaeth o'r fath yn cael ei defnyddio lle mae newid arfaethedig i'r modd y darperir gwasanaethau a/neu gost sylweddol i ddarparu gwasanaethau).

Yn dilyn y drafodaeth, roedd y pwyllgor o blaid y diwygiad i'w ystyried gan y Cabinet.

Yn dilyn craffu, roedd yr aelodau'n gefnogol o'r cynnig i'w ystyried gan y Cabinet, gyda'r diwygiad wedi'i gynnwys.

<u>Dyraniadau Ychwanegol ar gyfer y Rhaglen Gyfalaf</u>

Cyflwynwyd gwybodaeth i'r aelodau yn ymwneud â dyraniadau ychwanegol ar gyfer y rhaglen gyfalaf, fel y manylir o fewn yr adroddiad a gylchredwyd.

Holodd yr aelodau pa fath o fuddsoddiadau sy'n cael eu hystyried ac a oes unrhyw wybodaeth bellach am y lefel a'r math o fuddsoddiadau sy'n cael eu hystyried. Cadarnhaodd swyddogion y byddai manylion o'r math yn cael eu cyflwyno i fyrddau cabinet yn yr hydref.

Cadarnhaodd swyddogion fod yr £1.5miliwn y cyfeiriwyd ato yn yr adroddiad yn rhan o gyllideb sylfaenol y Rhaglen Gyfalaf a gymeradwywyd gan y cyngor. Mae'r £3.5 miliwn yn grant cyfalaf penodol untro nad yw'n rhan o'r gyllideb gyfalaf sylfaenol, felly nid oes angen i'r cyngor ei ystyried. Gall Swyddogion wneud

argymhellion i Fyrddau'r Cabinet eu hystyried mewn perthynas â'r cyllid hwn.

Yn dilyn craffu, roedd yr aelodau'n gefnogol o'r cynnig i'w ystyried gan y Cabinet.

Gofal plant mewn Ysgolion ac Adeiladau Addysg: Newidiadau Dros Dro i Drefniadau Rhent Presennol

Ailddatganodd y Cyng. Scott Jones ei fudd a gadawodd yr ystafell ar gyfer yr eitem hon.

Cyflwynwyd gwybodaeth i'r aelodau yn ymwneud â newidiadau dros dro i'r trefniadau rhent presennol fel y manylwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Cydnabu'r aelodau fod yr adroddiad yn amlinellu'r newidiadau dros dro, fodd bynnag nid oeddent yn amlinellu'r trefniadau presennol sydd ar waith. Hefyd, holodd yr aelodau a oedd arolwg wedi'i gynnal ar draws y fwrdeistref i gadarnhau pa drefniadau gofal plant yr oedd eu hangen, neu a oedd y cynllun wedi'i bwysoli'n benodol at ysgolion cyfrwng Cymraeg.

Cadarnhaodd swyddogion fod llu o drefniadau ar waith ar draws ysgolion ar hyn o bryd, ac nad yw'r swyddogion wedi gallu cael gafael ar ddadansoddiad manwl eto.

Roedd archwiliad digonolrwydd gofal plant wedi'i gwblhau'n ddiweddar, sy'n destun ymgynghoriad ar hyn o bryd. Mae'r ymgynghoriad wedi nodi bwlch sylweddol yn y ddarpariaeth Gymraeg a hefyd glybiau ar ôl ysgol.

Yn dilyn craffu, roedd yr aelodau'n gefnogol o'r cynnig i'w ystyried gan y Cabinet.

Dychwelodd y Cyng. Scott Jones i'r ystafell.

Gwasanaeth Adnewyddu ac Addasu Tai (HRAS) - Polisi Adnewyddu Tai'r Sector Preifat

Cyflwynwyd gwybodaeth i'r aelodau yn ymwneud â Pholisi Adnewyddu Tai y Sector Preifat fel y manylir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Dywedodd swyddogion y bydd y newidiadau'n cael effaith ariannol fawr. Bydd y cyllid presennol yn cael ei ddefnyddio'n gynt, gan y bydd rhai grantiau'n cael eu heithrio o brawf modd.

Holodd yr aelodau a oedd swyddogion yn cydweithio gyda Tai Tarian i sicrhau bod unrhyw eitemau sy'n cael eu rhoi mewn eiddo fel rhan o'r cynllun yn cael eu hailgylchu. Cadarnhaodd swyddogion fod y cynllun yn gweithredu o fewn y sector preifat yn bennaf, fodd bynnag lle mae gan Tai Tarian eitemau yn eu lle, maen nhw'n ceisio sicrhau bod pobl addas yn cael eu gosod yn eu heiddo.

Amlinellodd y swyddogion ganlyniadau'r polisi newydd, gan gynnwys y cynnydd tebygol mewn ceisiadau am arian, y cynnydd mewn amser i ddarparu eitemau wedi'u hariannu, ac oedi posib wrth ryddhau cleifion o ysbytai oherwydd eu bod yn aros am offer addas.

Yn dilyn craffu, roedd yr aelodau'n gefnogol o'r cynnig i'w ystyried gan y Cabinet.

Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU

Rhoddodd swyddogion gyflwyniad byr i'r aelodau a oedd yn amlinellu beth yw Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU. Mae'n gronfa cyfalaf a refeniw sy'n seiliedig ar ddyraniadau lleol. Mae'r gronfa'n seiliedig ar dri maes blaenoriaeth - cymunedau a lleoedd, cefnogi busnesau lleol a phobl a sgiliau.

Darparodd y swyddogion wybodaeth yn ymwneud â'r meysydd a nodwyd o fewn y blaenoriaethau a hefyd linell amser a ragwelir o ran y broses ymgeisio.

Cadarnhaodd swyddogion nad yw'r gronfa ar agor ar gyfer prosiectau eto. Mae'r ddogfen a fydd yn cael ei chyflwyno erbyn 1 Awst, yn ddogfen strategaeth lefel uchel.

Yn dilyn craffu, roedd yr aelodau'n gefnogol o'r cynnig i'w ystyried gan y Cabinet.

Ail-greu Ceuffos Rhodfa'r Castell

Ni chafwyd unrhyw gwestiynau .

Roedd yr aelodau'n cefnogi'r bwriad i'r cynnig gael ei ystyried gan y Cabinet.

5. **BLAENRAGLEN WAITH 2022/23**

I nodi er gwybodaeth.

6. **EITEMAU BRYS**

Nid oedd unrhyw eitemau brys.

7. **MYNEDIAD I GYFARFODYDD**

Penderfynu gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitem ganlynol yn unol â Rheoliad 4 (3) a (5) o Offeryn Statudol 2001 Rhif 2290 a'r paragraffau eithriedig perthnasol yn Rhan 4 Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

8. **CRAFFU EITEM/EITEMAU PREIFAT CYN PENDERFYNU**

Tirlithriad Pant-teg/Heol Cyfyng

Yn dilyn craffu, roedd yr aelodau'n gefnogol o'r cynnig i'w ystyried gan y Cabinet.

Darparu Canolfan Groeso

Yn dilyn craffu, roedd y pwyllgor yn gefnogol o'r cynnig i'w ystyried gan Fwrdd y Cabinet.

**CADEIRYDD**

# Cabinet Scrutiny Committee

## (All starting 2pm unless otherwise stated)

| Meeting Date | Agenda Item | Contact Officer |
|---|---|---|
| **2022** | | |
| 29th Jun | | |
| | | |
| 28th Jul | | |
| | | |
| 21st Sept | | |
| | | |
| 19th Oct | | |
| | | |
| 21st Nov (Special) | | |
| | | |
| 30th Nov | | |
| | | |
| **2023** | | |
| 11th Jan | | |
| | | |
| 22nd Feb | | |
| | | |
| 5th April | | |
| | | |

| | | |
|---|---|---|
| 17th May | | |